


Band roc a rôl



Tric 
a Chlic




Cafodd Ben syniad, syniad grêt.
“Rydw i am fod mewn band roc a rôl,” meddai Ben.



“Hei! Daniel. Wyt ti am fod mewn band roc a rôl?” gofynnodd Ben.



“O! Ydw. Rydw i’n grêt
ar y drymiau.”



“Hei! Tomos. Wyt ti am fod
mewn band roc a rôl?”
gofynnodd Ben.



“O! Ydw. Rydw i’n grêt ar y gitâr.”



“Hei! Sali. Wyt ti am fod mewn band roc a rôl?” gofynnodd Ben.



“O! Ydw. Rydw i'n grêt
ar y piano.”



Dyma ...



Daniel ar y drymiau, Tomos
ar y gitâr a Sali ar y piano.



O am sŵn!
Ond, ble mae Ben?

